



Taflen Weithgaredd
5

ARWYDDION O WANWYN HEULOG

(a sut i'w hadnabod)

Ar ôl y gaeaf daw'r gwanwyn, ac mae'r byd naturiol o'n cwmpas yn bywiocau unwaith eto! Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi i ddod yn dditectif byd natur craff.

BYDD ANGEN...

- Dillad sy'n addas i bob tywydd y gallwch eu gwisgo y tu allan.
- Eich holl synhwyrâu er mwyn ichi ryfeddu at olygfeydd, synau ac aroglau'r gwanwyn.
- Sbienddrych (os oes gennych chi un) i ddod yn nes at fyd natur.

Gadewch inni ddarganfod yr arwyddion bod y gwanwyn ar ddod!



COED BLODEUOG

Ar ôl y gaeaf hir, mae petalau lliw pastel pert yn ymddangos dros nos ar y brigau (mae rhai yn blodeuo mor gynnar â mis Chwefror).

Edrychwch am... y mathau mwyaf cyffredin yn y Deyrnas Gyfunol, sef y ddraenen wen, y ddraenen ddu a'r goeden afalau.

GWENYN GWYLLT

Mae'r gacynen ddiymffrost fel arfer yn deffro o'i gaeafgwsq ym mis Mawrth.

Edrychwch am... goed sy'n blodeuo'n gynnar, megis y ddraenen ddu, am fod gwenyn yn dwlu ar eu paill.



ADAR PRYSUR

Gwrandewch am gân serchog yr adar yn y bore a mwynhewch y gân honno yn hwyr yn y prynhawn hefyd.

Edrychwch am... nythod mewn llwyni, perthi a choed tal, am fod adar prysur yn creu cartrefi i'w cywion bychain (ond gadewch lonydd iddyn nhw!).

Y DYDD YN YMESTYN

Ar ôl heuldro'r gaeaf, (diwrnod byrraf y flwyddyn), cawn ychydig yn fwy o olau dydd bob dydd ac mae'r tywydd yn cynhesu.

Edrychwch am... fachlud yr haul yn y gwanwyn sy'n nodi diwedd y dydd, yn ogystal â'r clochau'n mynd ymlaen ym mis Mawrth.



Y BYD YN BLAGURO

Blagur dail ein coed brodorol sydd ar fin ffrwydro yw un o'r arwyddion cynnar hynny bod y gwanwyn ar ddod!


Edrychwch am... goed yn eich parc lleol, ar eich ffordd neu yn eich gardd. Mae'n digwydd o'n cwmpas ni i gyd!



Y BLODAU GWYLLT AR DDEFFRO

Nid oes y fath beth â chwyn! Mae lawntiau a mannau glaswelltog yn pefrio â lliw wrth i flodau gwyllt ddeffro o drwmgwsq y gaeaf.

Edrychwch am... flodau dant y llew, blodau'r haul, briallu a blodau menyng. Mae'r rhain i gyd yn ffynhonnell gynnar bwysig iawn o neithdar i wenyn a pheillwyr eraill.



Arwydd bendant arall bod y gwanwyn ar ddod yn y Cymoedd yw dyfodiad yr ŵyn bach sy'n prancio'n chwareus a llon. Edrychwch am y gwahanol fridiau o ddefaid - mae rhai yn wlanog, mae rhai yn frown ac mae gan eraill gym!

Mwynhewch y gwaith ditectif!

Parc Rhanbarthol
y Cymoedd



Valleys
Regional Park



Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund



Llywodraeth Cymru
Welsh Government